CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
2 Medi 2020, Trwy Fideo 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, L Roberts, D Gwyn, A Mummery, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 01.07.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng L Roberts yn cynnig a Cyng N Jones yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** – Ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud am bod y cyngor wedi cael grant yn 2018/19 ac felly ddim yn gymwys i dderbyn grant tan 2021/22.
4.2	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.3	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** – Disgwyl l'r mater cael eu drafod yng nghyfarfod Unllais Cymru
4.4	**Defibrillator** – Bydd Cyng D I Roberts/A Mummery yn trefnu cael trydanwr.
4.5	**Bus shelter Star** – Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan W Evans & Son am £365 + TAW. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf
4.6	**WiFi** - Mae'r Cynghorydd Sir R Williams yn delio â'r mater hwn ac yn mynd i gysylltu ag Ofcom
4.7	"**Drop" yn y lon** rhwng Eglwys Penmynydd a'r groeslon – mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Adnoddau
5.1	Penderfyniad cais am grant – gweler 4.1
	Cynllunio
5.2	Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2020/21 3 carafan static – dim sylwadau
	Llofnod **Cadeirydd** **07.10.20**

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwll – cofnodion y cyfarfod 10.02.20 – mae'r aelodau wedi derbyn copi
6.2	Playsafety Ltd Adroddiad Rospa - Dim risgiau wedi'u nodi ar y cae chwarae, Star
6.3	W Evans & Son – gweler 4.5
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd I dalu playsafety Ltd £82.20
7.2	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Elusendai Penmynydd: Mae'r Cadeirydd y Cynghorydd D I Roberts a'r Cynghorydd E Williams wedi cyfarfod â'r Ymddiriedolwyr ac wedi paratoi adroddiad sydd wedi'i ddosbarthu i aelodau'r cyngor. Ni all y Cyngor fod yn ymddiriedolwyr ac mae'n mynd i fod yn anodd iawn newid amodau yn y dogfennau. Ni fu unrhyw gyswllt â'r Comisiwn Elusennau ers 8 mlynedd. Awgrymwyd y dylid sefydlu grŵp gwirfoddol lleol gyda'r bwriad o fod yn ymddiriedolwyr. Cytunwyd ar y canlynol hefyd: 1 Mae'r Cynghorwyr D I Roberts ac E Williams yn cwrdd â'r Esgob i drafod y mater 2 Cyng Mummery i gysylltu â Chyngor Tref Caergybi i drafod sefyllfa debyg a ddigwyddodd yng Nghaergybi 3 Gwahodd Sue (Eglwys yng Nghymru) i ddod i gyfarfod nesaf y cyngor. Diolchwyd i'r Cynghorwyr D Roberts ac E Williams am eu gwaith.
8.2	Cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu â'r Adran Gynllunio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Safle Teithwyr yn Star
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Coed yn tyfu ar ochr lon Garnedd Wen
	Llofnod Cadeirydd 07.10.20